**CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU**

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Tachwedd 8, 2016 am 7.30 o'r gloch.

**AGENDA**

**Gweddi**

**1. Ymddiheuriadau:**

**2. Datgan diddordeb**:

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 11, 2016**

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 11, 2016**

**5. Materion Ariannol**

a. Bil (13/10/2016) am £70 oddi wrth Glyn Rees |& Son i ail agor bedd i gladdu gweddillion.

b. Derbyniwyd (13/10/2016) siec am £175 (claddu gweddillion) oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at David Morgan Griffiths.

c. Llythyr (20/10/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd swyddogion o'r sefydliad yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru Tachwedd i drafod nifer fawr o gwynion derbyniwyd am y broses archwilio allanol a gynhaliwyd gan BDO.

ch. Llythyr (Hydref 2016) oddi wrth Gwasanaeth Trethi, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mai Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi ailbrisio Gwerth Ardrethol eiddo busnesau yng Nghymru. Mae'r wybodaeth i'w gael ar www.gov.uk/voa/revaluation

Gwerth ardrethol Toiledau Bontddu presennol yw £570.
Bydd y Gwerth ardrethol yn 2017 yn £740

**6. Mynwent Llanelltyd**

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/65/14P. Mae'r Awdurdod yn caniatau Trosi ac ymestyn allandy i ffurfio llety gwyliau i'w osod a gosod tanc septig, a symud carafan statig oddi ar y safle. Bryn Du, Llanelltyd.

ii. Cais NP5/65/133E. Mae'r Awdurdod yn caniatau Cais i ryddhau Amodau Rhif 3, 4, 5 a 10 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/133D dyddiedig 22/12/2015. Ysgol Gynradd Llanelltyd, Llanelltyd.

b. Derbyniwyd (17/10/2016) dogfen Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri oddi wrth Elfed ap Gomer. Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau'r Cyngor.

c. Llythyr (Hydref 19, 2016) yn gofyn ini ddychwelyd yn ôl y mapiau oedd yn ymwneud ag Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri - Asesiad Mannau Agored.

Anfonwyd y mapiau yn ôl i'r Parc.

ch. Cais cynllunio NP5/65/343. Adnewydd tŷ. Heddwch, Llanelltyd.

**8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (10/10/2016) oddi wrth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. Mae angen cwblhau holiadur sy'n gofyn am wybodaeth am bobl neu lefydd sy'n adnabyddus am gysgu ar y stryd.

b. Derbyniwyd (17/10/2015) adroddiad ar Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru oddi wrth Un Llais Cymru.

c. Llythyr (25/10/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd rhoi eu barn ar blismona yng Ngogledd Cymru. Bydd y cyfarfod yn Canolfan Hamdden Penllyn, Bala ar Rhagfyr 7 am 6.30yh.

**9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

**10. Materion Brys**

a. Derbyniwyd (26/10/2016) cais gan breswylydd Bontddu yn gofyn os mae'n bosib symud y lloches bws sydd wrth Trem y Gader i leoliad wrth Bryn Teg, Bontddu.

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc